# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Menter a Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 3 Rhagfyr 2015

Amser: 09.15 - 14.27

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3318

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | William Graham AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Jeff Cuthbert AC<br>Keith Davies AC<br>Dafydd Elis-Thomas AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Eluned Parrott AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth<br>Yr Athro Stuart Cole, Prifysgol De Cymru<br>Rhodri Griffiths, Llywodraeth Cymru<br>Tobyn Hughes, Nexus<br>Stephen Joseph, Ymgyrch dros Drafnidiaeth Well<br>Jane Lorimer, Sustrans Cymru<br>Kamal Panchal, Cymdeithas Llywodraeth Leol |

| | |
|---|---|
| | Steve Pilliner, Cyngor Sir Caerfyrddin<br><br>Chris Roberts, Sustrans Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br><br>Martha Da Gama Howells (Ail Glerc)<br><br>Rachel Jones (Dirprwy Glerc)<br><br>Andrew Minnis (Ymchwilydd) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mick Antoniw AC a Gwenda Thomas AC.

## 2 Gwasanaethau Bysiau a Thrafnidiaeth Gymunedol yng Nghymru: Tystiolaeth Academaidd a Llywodraeth Leol

2.1 Atebodd yr Athro Stuart Cole a Stephen Pilliner gwestiynau gan Aelodau o’r Pwyllgor.

2.2 Cynigiodd Stephen Pilliner ddarparu gwybodaeth bellach am y gost sydd ynghlwm wrth redeg gwasanaeth Bwcabus.

## 3 Gwasanaethau Bysiau a Thrafnidiaeth Gymunedol yng Nghymru: Polsi Bysiau Lloegr

3.1 Atebodd Tobyn Hughes, Kamal Panchal, Charles Loft a Stephen Joseph gwestiynau gan Aelodau o’r Pwyllgor.

## 4 Gwasanaethau Bysiau a Thrafnidiaeth Gymunedol yng Nghymru: Sustrans Cymru

4.1 Atebodd Jane Lorimer a Chris Roberts gwestiynau gan Aelodau o’r Pwyllgor.

## 5 Gwasanaethau Bysiau a Thrafnidiaeth Gymunedol yng Nghymru: Llywodraeth Cymru

5.1 Atebodd Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a Rhodri Griffiths gwestiynau gan Aelodau o'r Pwyllgor.

5.2 Cynigiodd Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:

- Manylion am ddangosyddion perfformiad allweddol Bwcabus
- Manylion am gyfanswm y cyllid cyhoeddus a roddwyd i gynllun Bwcabus a nifer y teithwyr a gludwyd bob blwyddyn ers 2009-2010
- Manylion am lefel y gymhorthdal ar gyfer pob taith Bwcabus, ac a yw Bwcabus yn darparu gwerth am arian a sut mae hyn wedi cael ei asesu hyd yma
- Manylion am unrhyw gerbydau bach Bwcabus a ddefnyddir i gysylltu cymunedau gan gynnwys nifer y cerbydau Bwcabus sy'n gweithredu ym mhob ardal
- Dadansoddiad o nifer y teithwyr sy'n defnyddio gwasanaeth Traws Cymru ac unrhyw wybodaeth sydd ar gael o ran ble mae teithwyr yn cychwyn eu taith a phen eu taith gan gynnwys os yw'n angenrheidiol defnyddio gwasanaeth bysiau masnachol, a yw'r teithwyr sy'n defnyddio gwasanaethau masnachol yn cael eu cyfrif ddwywaith wrth gyfrif cyfanswm y teithwyr ar y llwybr hwnnw.

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Menter

6.1.1 Nodwyd y Papur gan y Pwyllgor.